**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 29 MEHEFIN 2022**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: S.K.Hunt, N.Jenkins, D.M.Peters, S.Harris, J.Hale, A.Llewelyn a/ac W.F.Griffiths

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, K.Jones, A.Jarrett, M.Shaw, C.Furlow-Harris, J.Woodman-Ralph, C.John, R.Crowhurst, S.Curran, H.Jones, A.Thomas, C.williams a/ac K.Windsor-Brown

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDDION**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelodau a'r Swyddogion canlynol ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr:<br>A Llewelyn<br>J Hurley<br>P Rogers | Parthed: Eitem rhif 9 ar yr agenda; Cynllun Costau Byw Disgresiynol Llywodraeth Cymru gan eu bod naill ai'n byw mewn eiddo Band E neu fod ganddynt fuddiannau ynddynt. |

| | |
|---|---|
| | Roeddent i gyd yn teimlo bod eu buddiannau'n rhagfarnol a gadawsant y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno'n unig. |

| | |
|---|---|
| Swyddogion:<br>K Jones,<br>H. Jones,<br>C.Williams. | Parthed: Eitem rhif 9 ar yr agenda; Cynllun Costau Byw Disgresiynol Llywodraeth Cymru gan eu bod naill ai'n byw mewn eiddo Band E neu fod ganddynt fuddiannau ynddynt.<br>Roeddent i gyd yn teimlo bod eu buddiannau'n rhagfarnol a gadawsant y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno'n unig. |

| | |
|---|---|
| Cynghorydd A.Llewelyn | Parthed: Eitem rhif 7 ar yr Agenda, Ysgol Ddechreuol Cyfrwng Cymraeg – Mynachlog Nedd gan ei fod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur ond mae ganddo ollyngiad i siarad a phleidleisio. |

| | |
|---|---|
| Cynghorydd M.Peters | Parthed: Eitem rhif 7 ar yr Agenda, Ysgol Ddechreuol Cyfrwng Cymraeg – Mynachlog Nedd gan ei fod yn llywodraethwr ysgol yno |

| | |
|---|---|
| Cynghorydd W.Griffiths | Parthed: Eitem rhif 11 ar yr Agenda – Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arfaethedig ar gyfer Terfyn Cyflymder o 30mya gan mai ef yw'r aelod lleol ar gyfer yr ardal honno. |

| | |
|---|---|
| Mike Shaw<br>(Swyddog Cyfreithiol) | Parthed: Eitem rhif 11 ar yr Agenda – Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arfaethedig ar gyfer Terfyn Cyflymder o 30mya gan ei fod yn byw yn un o'r strydoedd a grybwyllir yn yr adroddiad. Teimlodd fod ei chysylltiad yn rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod am yr eitem honno'n unig. |

4. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/2023**

Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2022/2023.

5. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

6. **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Ar ddechrau'r eitem dywedwyd wrth Aelodau y byddai rhoi'r penderfyniad ar waith yn amodol ar y cyfnod galw i mewn o dridiau. Ni ddywedwyd hynny yn yr adroddiad.

**Penderfyniadau**

1. Cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022 fel y manylir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Cymeradwyo ymgymryd â'r gwaith fel y manylir yn y Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu yn ystod 2022 – 2023.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

I sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn bodloni gofynion Rheoliad 5(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol y cyngor a pharatoi a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Sul, 3 Gorffennaf 2022. Nid oedd unrhyw 'alwadau i mewn' am yr eitem hon.

7. **YSGOL CYCHWYN CYFRWNG CYMRAEG - MYNACHLOG NEDD**

Nododd yr Aelodau yr wybodaeth ychwanegol a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod fel atodiad cyhoeddus.

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiadau effaith mewn perthynas â chydraddoldeb, risg, defnydd cymunedol a'r iaith Gymraeg, ac i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru 2015), ynghyd â'r goblygiadau cyfreithiol ac yn unol ag Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

1. Cymeradwyo cyhoeddi cynnig statudol i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Nheras Sant Ioan, Mynachlog Nedd, Castell-nedd. SA10 7ND.

2. Y dyddiad ar gyfer rhoi hwn ar waith fydd 1 Ionawr 2023.

3. Cyhoeddir yr hysbysiad o'r cynnig ar 30 Mehefin 2022, gan ganiatáu 28 o ddiwrnodau ar gyfer derbyn gwrthwynebiadau. Bydd adroddiad yn cael ei ddwyn yn ôl at yr Aelodau yn dilyn canlyniad y cyfnod hwn ar gyfer penderfyniad terfynol.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Galluogi'r cyngor i gydymffurfio â gofynion cyhoeddi ffurfiol y Côd Trefniadaeth Ysgolion a deddfwriaeth gysylltiedig. Bydd rhoi'r cynnig ar waith yn galluogi'r cyngor i hyrwyddo safonau addysgol uchel a chyflawni potensial pob plentyn. Bydd hefyd yn galluogi'r cyngor i gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau addysg effeithlon yn ei ardal.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Gyda chytundeb Cadeirydd Craffu'r Cabinet, bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar unwaith. Nid oedd unrhyw 'alwadau i mewn' am yr eitem hon.

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG

**Penderfynwyd:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

9. **CYNLLUN CYMORTH COSTAU BYW DISGRESIYNOL LLYWODRAETH CYMRU**

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo meini prawf Cynllun Costau Byw Dewisol Llywodraeth Cymru fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Bydd y llythyr sy'n cael ei ddosbarthu i drigolion cymwys Castell-nedd Port Talbot, sy'n eu hysbysu o'r cynllun fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cynnwys yr opsiwn o ad-dalu'r arian i'r awdurdod os nad ydynt yn dymuno elwa o'r cynllun.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Galluogi'r cyngor i weinyddu cynllun cymorth costau byw dewisol Llywodraeth Cymru.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Sul, 3 Gorffennaf 2022. Nid oedd unrhyw 'alwadau i mewn' am yr eitem hon.

10. **CYNLLUN CYMORTH CALEDI CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Cymeradwyo eithrio gofynion Rheolau Gweithdrefnau Contractau Cyngor Castell-nedd Port Talbot a chyflawni Cynllun Rhyddhad Caledi Castell-nedd Port Talbot gan ddefnyddio asiantaeth bartner fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Rhoi'r awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog Cyllid ymrwymo i gytundeb partneriaeth gyda Cymru Gynnes i hwyluso'r gwaith o gyflwyno Cynllun Rhyddhad Caledi CNPT.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Er mwyn galluogi'r cyngor i ddarparu rhyddhad caledi i drigolion y Fwrdeistref Sirol.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Sul, 3 Gorffennaf 2022. Nid oedd unrhyw 'alwadau i mewn' am yr eitem hon.

## 11. GORCHMYNION TRAFFIG - GORCHMYNION RHEOLEIDDIO TRAFFIG TERFYN CYFLYMDER 30MYA ARFAETHEDIG

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, dylid cymeradwyo hysbysebu'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Terfyn Cyflymder 30 mya sy'n gysylltiedig â Chyflwyno Terfyn Cyflymder Diofyn 20mya Llywodraeth Cymru 2023 fel y manylir yn Atodiad A, B ac C i'r adroddiad a ddosbarthwyd. Os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, caiff y cynigion eu rhoi ar waith ar y safle fel y'u hysbysebir.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bydd y gorchmynion rheoleiddio traffig arfaethedig yn newid y llwybrau strategol yn ôl i derfyn cyflymder o 30mya ar ôl cyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn 20mya yn genedlaethol er mwyn cynnal llif y traffig ar y prif rwydwaith ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Sul, 3 Gorffennaf 2022. Nid oedd unrhyw 'alwadau i mewn' am yr eitem hon.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerir ag ymarfer ymgynghori pan gaiff y cynllun ei hysbysebu.

## 12. GORCHMYNION TRAFFIG - AMODAU CYNLLUNIO AR GYFER Y DATBLYGIAD TAI NEWYDD

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, dylid cymeradwyo hysbysebu'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Amrywiol sy'n gysylltiedig â'r amodau cynllunio ar gyfer y Datblygiad Tai newydd oddi ar Heol y Dôl, Castell-nedd fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bydd y gorchmynion rheoleiddio traffig arfaethedig yn atal parcio diwahaniaeth ac yn rheoleiddio symudiadau traffig er diogelwch ar y ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Sul, 3 Gorffennaf 2022. Nid oedd unrhyw 'alwadau i mewn' am yr eitem hon.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerir ag ymarfer ymgynghori pan gaiff y cynllun ei hysbysebu.

## 13. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

## 14. MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

15. **CYNIGION AR GYFER CRONFA CODI'R GWASTAD (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Cymeradwyo pecyn o geisiadau'r Gronfa Codi'r Gwastad ar gyfer etholaethau Castell-nedd ac Aberafan a'r cais Trafnidiaeth yn unig fel y manylir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac Aelod(au) perthnasol o'r Cabinet gymeradwyo'r achos busnes terfynol i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU erbyn 6 Gorffennaf 2022 ar gyfer y cynlluniau a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

3. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid a'r Arweinydd a'r Aelodau Perthnasol o'r Cabinet ymrwymo i gytundebau grant neu ddogfennau cysylltiedig a allai fod yn angenrheidiol er mwyn defnyddio cyllid o Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU.

4. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio gymeradwyo proses gaffael, fel a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Galluogi Cyngor Castell-nedd Port Talbot i gyflwyno ceisiadau UKLUF yn ffurfiol ar gyfer etholaethau Castell-nedd ac Aberafan a'r cais Trafnidiaeth yn unig i Lywodraeth y DU.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Sul, 3 Gorffennaf 2022. Nid oedd unrhyw 'alwadau i mewn' am yr eitem hon.

## 16. CYFLE PORTHLADD RHYDD POSIB CASTELL-NEDD PORT TALBOT (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)

**Penderfyniad:**

Rhoi cymeradwyaeth i swyddogion ymchwilio a thrafod ymhellach gyda phartneriaid posibl i archwilio potensial y cyngor i gyflwyno cais Porthladd Rhydd, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I ddatblygu'r posibilrwydd o gais Freeport.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Sul, 3 Gorffennaf 2022. Nid oedd unrhyw 'alwadau i mewn' am yr eitem hon.

**CADEIRYDD**